CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
16 Chwefror 2016, Neuadd Talwrn
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng D ap rhobert, C McGregor, D Morgan, D Pritchard, A Williams, PCSO S Williams	
YMDDIHEURIADAU: Cyng M Lees, W Vaughan, D Roberts, W Williams, A Wyn, O Davies D Rees (Cyngor Sir), N Roberts (Cyngor Sir), R G Parry (Cyngor Sir).	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng D Morgan.
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 19 Ionawr 2016. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng C McGregor yn cynnig a Cyng D ap Rhobert yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Gor-yrru Llangwyllog** - Cynigodd PCSO S Williams gweld os oes staff ar gael i checio ar gyflymder y traffig.
4.2	**Gofeb Talwrn** - Mae'r clerc yn disgwyl pris am plaque gan Inigo Jones
4.3	**Arwydd - Neuadd** - mae'r Clerc wedi derbyn pris gan y Cyngor Sir - £515.35. Penderfyniwyd symud ymlaen.
4.4	**Lon yr Ysgol** - Mae'r Clerc yn disgwyl clywed gan y Cyngor Sir
4.5	**Hysbysffwrdd Capel Coch** - mewn llaw
4.6	**20myh tu allan i Ysgol Talwrn** - mewn llaw
4.7	**Coed - Maes y Coed -** Yn dilyn cyfarfod ar y safle gyda Ed Henderson (Cyngor Sir), dywedodd Cyng McGregor a Cyng Morgan nid oes neb yn berchen y coed a nid yw'r tir wedi'i gofrestru. Hefyd nid yw y Cyngor Sir yn barod i gymryd cyfrifoldeb. Penderfyniwyd cael dau pris am twtio a tocio. Yn y cyfamser, bydd y Clerc yn cysylltu a Unllais Cymru i ofyn pa cyfrifoldeb sydd gennym os ydym yn ei torri.
4.8	**Ymgynghoriad** ar Ffordd Newydd o Osod Tai Cymdeithasol - penderfyniwyd cymeradwyo
4.9	**Dwr yn hel ar y lon wrth ymyl Stone Science** - Mae'r Clerc wedi derbyn ymateb gan y Cyngor Sir yn dweud maent yn edrych i mewn i'r mater
4.10	**Palmant rhwng Bodlondeb - Hafan Deg** - Dywedodd Cyng D ap Rhobert, yn dilyn sgwrs gyda Mr Dewi Williams, ni fydd y Cyngor yn gallu gosod palmant oherwydd cyllid
	Llofnod…….Cadeirydd 15.03.16

5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	23C80M/LB/ENF cais am Ganiatad Adeilad Rhedtredig i ddiwygio'r dyluniad a gosodiad y lle parcio ar y cais a gymeradwywydd eisoes am Ganiatad Adeilad Rhestredig - cyfeirnod 23C80K/LB The Old Mill, Capel Coch - dim sylwadau
5.2	23C144F Cais llawn i ddymchwel sied bresennol, codi sied taclau newydd yn ei le ynghyd a chodi sied wair newydd yn Frogwy Bach, Llangwyllog - dim sylwadau
	Priffyrdd
5.3	Lon Talwrn - Pentraeth - gweler 4.9
5.4	Coed - Maes y Coed - gweler 4.7
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	**Jenny Spillman** - darllenwyd ebost gan Mrs Spillman yn dweud bod swyddogion y Capel wedi cynnig i ni gosod yr hysbysffwrdd ar tir y Capel. Penderfyniwyd symud ymlaen
6.2	**Yr Heddlu** - gor-yrru Llangwyllog - gweler 4.1
6.3	**Mynwent Llanddyfnan -** Mae'r clerc wedi derbyn cwynion ynglŷn â sbwriel yn cael ei adael yn y fynwent. Mae wedi cyfeirio'r mater at y Cyngor Sir. Mae hefyd wedi derbyn cwynion ynglŷn â phobl ifanc yn yfed alcohol yn y fynwent a thaflu caniau cwrw ar hyd y lle. Mae'r heddlu wedi cynnig i batrolio'r fynwent
6.4	**Mrs Ruth Harper - cais cynllunio 23C324A** - Darllenwyd ebost gan Mrs Harper yn gwrthwynebu y cais cynllunio. Cytunwyd i gefnogi Mrs Harper am y rhesymau canlynol: Mae'r fynedfa yn achosi perygl ac mae'r cyngor yn bryderus ynghylch y gweleded Mae maint y datblygiad yn edrych yn fawr o gymharu â datblygiadau eraill yn yr ardal ac allan o gymeriad.
6.5	**Dylan Jones B and C Shelters** - Mae'r Clerc wedi derbyn cais gan Mr Jones i dod i siarad gyda'r Cyngor am cysgodfannau bws mae'r cwmni yn cynnig. Cytunwyd i wahodd Mr Jones pan fydd yr angen yn codi.
6.6	**Gail Jones 6 Tai Lon Goch** - Darllenwyd llythyr gan Ms Jones am y damwain a ddigwyddod yn sgwar Talwrn yn ddiweddar ac yn gofyn i'r Cyngor Sir ail ystyried yr agwedd iechyd a diogelwch. Penderfynwyd gofyn am cyfarfod ar y safle gyda swyddogion y Cyngor Sir.
6.7	**Tender Torri gwair 2016 + 2017** - Dim ond un pris mae'r Clerc wedi derbyn - gan Mr Gareth Hughes - £600.00. Cytunwyd i derbyn y pris.
7	**MATERION ARIANNOL**
	Penderfyniwyd talu y canlynol:
7.1	Anglesey Computer Solutions £240 (2016 a 2017)
7.2	Aelodaeth Unllais Cymru £135
7.3	Rhent Capel Gosen £100
7.4	Arwydd Neuadd/Siop £515.35
	Llofnod…….Cadeirydd 15.03.16

8	**MATERION ERAILL**
8.1	Open Reach - Dywedodd Cyng C McGregor bod gwasanaeth BT drost y 6 mis diwethaf wedi bod yn warthus. Mae un teulu wedi bod heb ffôn am 5 wythnos. Hefyd, mae'r problem yn effeithio ar Gofal Mon. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw BT.
8.2	Dywedodd Cyng D Morgan bod un o trigolion Talwrn wedi syrthio wrth ymyl mynediad Maes y Coed. Mae angen gwaith ar y palmant a gwyneb y lon. Hefyd bod dwr yn gor lifo allan o grid. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir ac yn gofyn am 2 lamp yn yr ardal.
	Llofnod…….Cadeirydd 15.03.16